

LIC24-08

Y GWASANAETH IECHYD GWLADOL, CYMRU

Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2024

Gwnaed

20 Mawrth 2024

Yn dod i rym

1 Ebrill 2024

Mae Gweinidogion Cymru yn rhoi'r Cyfarwyddydau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 19(1), 203(9) a (10) a 204(1) o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(1).

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Cyfarwyddydau hyn yw Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2024.

(2) Daw'r Cyfarwyddydau hyn i rym ar 1 Ebrill 2024.

(3) Mae'r Cyfarwyddydau hyn wedi eu rhoi i Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre(2).

(1) 2006 p. 42.

(2) Sefydlwyd Ymddiriedolaeth GIG Prifysgol Felindre gan Orchymyn Ymddiriedolaeth Gwasanaeth Iechyd Gwladol Felindre (Sefydlu) 1993 (O.S. 1993/2838), a ddiwygiwyd gan O.S. 2017/912 (Cy. 223) ac O.S. 2018/887 (Cy. 176); mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol i'r Cyfarwyddydau hyn.

Diwygiadau i Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017

2. Mae Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 2) 2017(1) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

Diwygiadau i daliadau blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024 – 2025

3.—(1) Ym mharagraff 1 o Atodlen 1 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I)—

- (a) yn is-baragraff (a), yn lle “£21,467” rhodder “£22,905”;
- (b) yn is-baragraff (b), yn lle “£32,555” rhodder “£34,736”.

(2) Ym mharagraff 1 o Atodlen 2 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II), yn lle “£32,555” rhodder “£34,736”.

(3) Ym mharagraff 1 o Atodlen 3 (Personau Cymhwysol sydd â HIV), yn lle “£32,555” rhodder “£34,736”.

(4) Yn Atodlen 4 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV)—

- (a) ym mharagraff 1—
 - (i) yn is-baragraff (a), yn lle “£44,189” rhodder “£47,150”;
 - (ii) yn is-baragraff (b), yn lle “£51,162” rhodder “£54,590”;
- (b) ym mharagraff 2, yn lle “£51,162” rhodder “£54,590”.

Diwygiadau i daliadau tanwydd gaeaf ar gyfer y flwyddyn ariannol 2024 – 2025


4.—(1) Ym mharagraff 4 o Atodlen 1 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod I), yn lle “£618” rhodder “£659”.

(1) 2017 Rhif (Cy. 39), a ddiwygiwyd gan Gyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Rhif 3) 2017 (2017 Rhif (Cy. 38)), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2018 (2018 Rhif (Cy. 54)), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2019, Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2020 (Cy. WG20.16), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2021 (LIC21-39), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) (Rhif 2) 2021 (WG21-72), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2022 (LIC22-13), Cyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) (Rhif 2) 2022 (LIC22-46) a Chyfarwyddydau Cynllun Cymorth Gwaed Heintiedig Cymru (Diwygio) 2023 (LIC23-11).

(2) Ym mharagraff 4 o Atodlen 2 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C – Cyfnod II), yn lle “£618” rhodder “£659”.

(3) Ym mharagraff 3 o Atodlen 3 (Personau Cymhwysol sydd â HIV), yn lle “£618” rhodder “£659”.

(4) Ym mharagraff 4B o Atodlen 4 (Personau Cymhwysol sydd â hepatitis C a HIV), yn lle “£618” rhodder “£659”.



Yr Athro Chris Jones
Y Dirprwy Brif Swyddog Meddygol, Llywodraeth
Cymru, o dan awdurdod y Gweinidog Iechyd a
Gwasanaethau Cymdeithasol, un o Weinidogion
Cymru

Dyddiad 20 Mawrth 2024